

DOLEN Y TAB 78

22–23 Hydref 2021

11 Bore Sul 24 Hydref

Yng ngofal Glenys Roberts a'r
Parchedig Gethin Rhys.

**Cofiwch gofrestru erbyn 6yh nos Wener
os am fynychu'r cwrdd!**

YR OEDFAON NESAF

HYDREF

31 Yng ngofal Lyn a Mike West a'r teulu.

TACHWEDD

7 Yng ngofal Ceri Anwen a Geraint Rees.

14 Yng ngofal y Parchedig Aled Edwards, gyda
Huw a Bethan Herbert.

Hefyd ddydd Sul 24 Hydref

12:00 Oedfa Radio Cymru

Gwasanaeth dan ofal Andras Iago, Dinbych.

12:30 Radio Cymru – Bwrw Golwg

John Roberts a'i westeion yn trafod materion moesol a
chrefyddol.

19.00 – 20.00 S4C

Dechrau Canu Dechrau Canmol – Dathlu'r 60

Mewn rhifyn arbennig, Nia fydd ar daith yn hel atgofion
ac yn codi gwên yng nghwmni wynebaw cyfarwydd ar
drywydd chwe degawd o straeon ac atgofion.

E-fwletin Cristnogaeth21

Bob bore Sul www.cristnogaeth21.cymru

Llongyfarchiadau

I Ifan Roberts, Maes yr Haul, ar ennill y drydedd
wobr am gyfansoddi sgript wreiddiol yn y
gystadleuaeth i ddisgyblion Blynnyddoedd 7–9 fel
rhan o Eisteddfod yr Urdd 2020/21.

CAPEL Y TABERNAACL CYF.

CYFARFOD CYFFREDINOL BLYNYDDOL

Yn syth ar ôl yr oedfa
Bore Sul, 28 Tachwedd 2021

DIOLCH!

Nid yn annisgwyl, 'Diolch' oedd thema gwasanaeth
diolchgarwch yr Ysgol Sul yn yr oedfa yr wythnos
ddiwethaf. Ond roedd dimensiwn llawer iawn
ehangach na diolch am gynnyrch y cynhaeaf yn
unig i'r oedfa eto eleni.

Yn gyntaf cawsom ein hatgoffa gan Huw M. am
gyfraniad gwerthfawr y plant a'r oedolion pan
wahoddwyd hwy i lunio geiriau addas i'r gân '*Fesul
Dydd y mae Diolch*' pan oedd y pandemig ar ei anterth
flwyddyn union yn ôl. Cafodd y gân, a ddeilliodd o'r
cywaith hwnnw, ei pherfformio am y tro cyntaf yn oedfa
ddiolchgarwch rithiol y Tabernacl fis Hydref y llynedd.
Ond y tro hwn roedd gennym le i ddiolch am y cyfle i
wrandu ar berfformiad 'byw' cofiadwy Huw M. cyn iddo
ymhelaethu ar hanes yr ymateb anhygoel a gafwyd
wedi i'r gân gael ei ffrydio ar y cyfryngau cymdeithasol
a'i darlledu ar Radio Cymru. Yn eu sgil daeth cais cwbl
annisgwyl gan athrawes ym Mhatagonia am ganiatâd i
blant un o'r ysgolion Cymraeg yn y Wladfa lunio
fersiwn newydd o'r geiriau ar sail eu profiad gwahanol.
Cawsom ein gwefreiddio wrth wyllo'r fideo o
ddechongliad plant y Gaiman i'r gân ddechreuodd ei
thaith yn oedfa diolchgarwch Efail Isaf yn 2020.

Uchafbwynt ein diolchiadau eleni, fodd bynnag, oedd
cael y cyfle i groesawu plant yr Ysgol Sul i'r capel am y
tro cyntaf ers amser maith iawn. Ac nid croesawu eu
presenoldeb yn unig, ond hefyd cael bendith gyda'u
cyfraniad bendigedig a llawn asbri i'r oedfa. Fel
eglwys, mae gennym le i fod yn ddiolchgar am ffydd
athrawon ymroddedig yr Ysgol Sul i oresgyn her
enfawr wrth fentro ailsefydlu'r Ysgol Sul ddechrau
Medi, gan lwyddo i'w chynnal gyda plant mor ifanc yn
gwneud eu rhan mor raenus. Mae ein diolch hefyd i
rien i'r plant am eu cefnogaeth hwythau i'r fenter mewn
cyfnod sy'n parhau'n ddigon anodd i bawb.

Mae'r diolchiadau olaf wedi eu hanelu at bawb a
gyfrannodd mor hael i'r apêl hynod lwyddiannus i'r
ddau fanc bwyd rydym fel eglwys yn eu cefnogi, sef
Banc Bwyd Taf Elái a Banc Bwyd Salem, Ton-teg.





PANED A CHLONC
Dewch am glonc gyfeillgar ac hamddenol

CUPPA AND A CHAT
Come for a friendly and relaxed chat

Bob Dydd Mawrth
Every Tuesday
10.30-12.00

Y Ganolfan
Capel Tabernacl
The Vestry,
Tabernacl Chapel

**COLEG YR ANNIBYNWYR
CYMRAEG**


**Gweinidogaeth ym mywyd yr
Eglwys: Sacrament Bedydd**

**Aled Jones, Cyfarwyddwr a Chydlynnydd
Hyfforddi'r Coleg**

**7 o'r gloch,
Nos Fawrth 26 Hydref**

Manylion pellach a dolen Zoom:
aled@colegyrannibynwyr.cymru

CROESO CYNNES I BAWB




CASGLIAD YR AMLENNI BROWN

Cwta dri mis sydd ar ôl i gyfrannu i'r casgliad yma, at bedair elusen yn yr ardal sy'n hynod werthfawrogol o'n cefnogaeth ac yn fawr eu diolch.

Cymorth i Ferched Cymru
Gofalwyr Ifanc Rhondda Cynon Taf
Cwtch
Ysgol Tŷ Coch

Os nad ydych wedi cael cyfle i gyfrannu'n barod, byddai'r Gweithgor Cyfiawnder Cymdeithasol yn ddiolchgar iawn pe gallech wneud hynny erbyn canol Rhagfyr, er mwyn hwyluso'r broses o drosglwyddo'r arian yn gynnar yn y flwyddyn newydd.

DIOLCH YN FAWR



Pigion o'r Wasg

Dyfodol y Weinidogaeth
Trwy Lygaid
Karen Owen

Y tro hwn byddwn yn ailymweld â rhifyn Medi/Hydref o **Agora**, sef e-gylchgrawn Cristnogaeth 21. Fe gofiwch, bythefnos yn ôl, i ni gynnwys adroddiad ar gyflwyniad Aled Davies, Chwilog, i Gynhadledd Flynyddol Cristnogaeth 21 ar y thema *Dyfodol y Weinidogaeth*. Erbyn hyn mae cyfraniadau dau o'r siaradwyr eraill hefyd wedi eu cyhoeddi yn *Agora*. Un ohonynt yw Karen Owen, y bardd, sydd bellach yn arwain cynllun blaengar ar ran dau o gapeli pentref Pen-y-groes, Dyffryn Nantlle gyda'r nod o wneud y neges Gristnogol yn fwy perthnasol i fywyd bob dydd y trigolion. Fel un sydd bob amser yn siarad yn ddiflwyn-ar-dafod, mae'n werth ystyried arwyddocâd rhai o'i datganiadau mwyaf beiddgar trwy ddarllen ei chyfraniad ar wefan [Cristnogaeth 21 Agora 47 mis Medi-Hydref 2021 | Cristnogaeth 21](#). Yn y cyfamser, dyma flas o rai sylwadau:

'Mae'r mwyafrif o adeiladau [h.y. capeli] yn rhai na fydd yn ailagor wedi i'r pandemig basio.'

'Yn rhy hir, mae sefydliadau a threfniadaeth wedi disgwyl y bydd yr an-fynychwyr, rywbryd, yn gweld y golau ac yn "dod yn ôl" i wasanaeth ar y Sul . . . Y gwir plaen yw fod y gweddill eisoes wedi pleidleisio efo'u traed, i beidio troi allan, am resymau ffydd, o brofiad personol ac o ganlyniad i lesgedd a chreulondeb y drefn. A bendith ar eu pennau, y nhw sydd yn iawn, gan nad rhwng pedair wal y mae Duw neb yn byw.'

Yn sicr, bydd y sylwadau uchod yn codi gwrychyn nifer o'r 'saint' ond mae gan Karen genadwri mwy dyrchafol i'w chynnig er mwyn gwneud yr eglwysi'n fwy perthnasol i amgylchiadau dirdynnod aelodau mwyaf difreintiedig y gymdeithas yn Nyffryn Nantlle ac ardaloedd ôl-ddiwydiannol eraill yng Nghymru. Mae'n llwyddo i gydio sylw gyda'i sylwadau negyddol cyn bwrw ymlaen i gynnig dyfodol llawer iawn mwy adeiladol. Er enghraifft, wedi crybwyll na fydd nifer fawr o gapeli'n ailagor wedi'r clo, mae'n ychwanegu nad yw hynny'n gyfystyr â dweud na fydd lle mwyach i neges yr efengyl na'r gwasanaeth a gynigir i'r sawl sydd mewn angen.

Mewn ateb i'r cwestiwn *'Beth all capeli fod?'* mae Karen yn cynnig rhestr o weithgareddau megis lloches i unigolion sy'n wynebu camdriniaeth, banciau bwyd, hybiau i gludo pobl i weld perthnasau sydd mewn carchardai, ysbytai neu unedau iechyd meddwl. Ond mae'n ddigon realistig i sylweddoli nad ar chwarae bach y gellir cyflawni hyn, ac mae'n cloi trwy gydnabod:

'Mae'n golygu torchi llewys. Mae'n golygu torri chwys. Ac mae'n gofyn i Drefn sydd wedi bod yn hunan-dwylo wrth ddal i rygnu ar ei gliniau i fynd ar ei gliniau. Nid er mwyn rhwydo aelodau. Nid er mwyn cyfri pennau. Nid er mwyn brolio "capel Ni". Ond er mwyn y gwaith sydd yn fwy na phob un ohonom ni.'

Cylchlythyr wythnosol yw **Dolen y Tab** i ledaenu newyddion trwy gyfrwng e-bost, Facebook a gwefan y capel www.tabernacl.org. Gofynnir i chi anfon unrhyw newyddion erbyn nos lau at: 07710 237327 / 01443 225205 / gehpengwern@yahoo.co.uk